

CYMUNEDOLI

a baratowyd gan

CWMMNI

BRO

FFESTINIOG

Mae'r papur hwn yn cynnig syniadau ar gyfer trafod a gweithredu cymunedoli yng Nghymru. Yn sail i'r syniadau mae persbectif Raymond Williams ar natur cymuned a'r perthnasedd i ddatblygu cymunedol cyfoes a'r chwyldro tymor hir. Rhennir y papur yn dair rhan, fel y nodir isod.

1. Persbectif Raymond Williams ar botensial datblygu cymunedol yng Nghymru.
2. Agweddau ar ddatblygu cymunedol cyfoes.
3. Datblygu cymunedol yn gyfrwng hyrwyddo'r chwyldro tymor hir.

1. Persbectif Raymond Williams ar botensial datblygu cymunedol yng Nghymru

Mae sawl dyfyniad o waith Raymond Williams yn cyfleu peth o'i syniadau ynglŷn â datblygu cymunedol. Gweler, isod, rhan o gyfweiliad gyda Raymond Williams ym 1984 ar y thema, 'Decentralism and the Politics of Place'.

"Ideally, a new movement comes out of new ideas being specified in particular places-then there may be a model being expressed which is adaptable to the interests of other places and scales of operation. These can be ideas relating to long- or short-term real interests and the policies which express them. It is perfectly clear that ideas have to federate -it's in the nature of the analysis. The difficulty comes not least because of the existence of the old Labour Party nationalism, its tradition of metropolitan centralism (what I've referred to in a more general context as metropolitan provincialism) and its tradition of short-term electoral politics, and leadership geared to precisely that. It is difficult to produce ideas for a single place; it needs lots of people with skills being brought together. This is very difficult, especially as intellectuals will work in campaigns such as disarmament, the ecological movement and on questions of the economy. But there is little bringing together of these energies. It would happen more quickly-this bringing together- if it happened in a place." {Dyfyniad o dudalen 210 yn *Who Speaks for Wales? Nation, Culture, Identity*. Raymond Williams. Golygydd Daniel Williams. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2003)}

Yn ychwanegol, dyfynnir isod, o'r un un llyfr, rhannau o'r erthygl, 'Wales and England, a ysgrifennwyd gan Raymond Williams ym 1983.

"Radical and communal Wales...will be real to the extent that it develops, in plan and practice, new forms of co-operative work and communal socialism,

new kinds of educational and cultural collectives, rather than what happens to the Labour or even the Nationalist vote”.

“To bring together these two emphases-on the cultural struggle for actual social identities, and on the political redefinition of effective self-governing societies-is, I believe, to indicate a new and substantial kind of socialism which is capable both of dealing with the complexities of modern societies and also of re-engaging effective and practical popular interests.”
{Dyfyniad o dudalen 203 yn Who Speaks for Wales? Nation, Culture, Identity. Raymond Williams. Golygwyd gan Daniel Williams. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2003)}

2. Agweddau ar ddatblygu cymunedol cyfoes.

Roedd Blaenau Ffestiniog yr ail dref fwyaf yng ngogledd Cymru ym 1900 gyda phoblogaeth o tua 13,000 ond wrth i'r diwydiant llechi edwino mwy na hanerwyd y boblogaeth erbyn y flwyddyn 2000. Erbyn heddiw mae Bro Ffestiniog yn un o'r ardaloedd tlotaf yn economaidd ym Mhrydain. Er y dad-ddiwydiannu mae'r etifeddiaeth ddiwylliannol gymunedol yn goroesi i raddau helaeth ac yn gysail i'r model o ddatblygu cymunedol a arloesir yn yr ardal heddiw.

Mae'r profiad o ddatblygu cymunedol ym Mro Ffestiniog yn tanlinellu potensial datblygu cymunedol yn y cyfnod presennol. Ymddengys bod mwy o fentrau cymunedol y pen yn yr ardal nag yn unrhyw le arall yng Nghymru. Daeth 15 o'r mentrau cymunedol hyn at ei gilydd i ffurfio rhwydwaith dan faner Cwmni Bro Ffestiniog, sy'n gwmni cymunedol cyfyngedig trwy warant. Mae'n gweithredu yng nghymunedau Blaenau Ffestiniog, Trawsfynydd a Phenrhyndeudraeth a'r pentrefi cyfagos sydd, rhyngddynt, gyda phoblogaeth o tua 8,000. Amcanion y Cwmni yw hybu cydweithrediad rhwng y mentrau cymunedol, meithrin mentrau cymdeithasol newydd a hefyd gweithio gyda busnesau preifat bach sydd wedi'u hangori yn y gymuned yn ogystal â gyda llywodraeth leol a chanol. Hyn i gyd er mwyn datblygiad integredig amgylchedd, economi, cymdeithas a diwylliant yr ardal.

Mae'r mentrau cymunedol sy'n aelodau o Gwmni Bro Ffestiniog yn cynnwys Antur Stiniog, Barnardos, Cyfeillion Croesor, Cell B/ Gwallgofiaid, Cwmni Opra Cymru, Deudraeth Cyf, GISDA, Gwesty Seren, Pengwern Cymunedol, Seren, Trawsnewid, Y Dref Werdd, Ysgol y Moelwyn / Canolfan Hamdden Bro Ffestiniog. Mae gweithgareddau amrywiol y mentrau hyn yn cynnwys rhedeg dau westy, siopau, bwytai, canolfan dwristiaeth, canolfan hamdden, canolfan celf a chrefft, canolfan beicio mynydd, manwerthu, garddwriaeth, darparu rhandiroedd, gwaith addysgol a diwylliannol, opera, gwaith amgylcheddol, hybu arbed ynni, lleihau gwastraff bwyd, banciau bwyd, banciau coed tân, ailgylchu, glanhau afonydd, gwasanaeth cynghori, gwaith gydag oedolion

gydag anghenion ychwanegol, gwaith gydag ieuenctid yn cynnwys ynglŷn â digartrefedd a dysgu sgiliau amgylcheddol a chyfryngol.

Rhyngddynt mae aelodau'r Cwmni Bro yn cyflogi tua 150 o bobl. Dengys dadansoddiad o effeithiau economaidd y mentrau bod canran uchel o'u hincwm yn dod o fasnachu. Ymhellach, dangoswyd bod yr incwm, i raddau helaeth, yn aros a chylchdroi a lluosogi o fewn yr ardal. Am bob punt a dderbynnir fel grantiau neu fenthyciadau mae 98 ceiniog yn cael eu gwario'n lleol, yn bennaf ar gyflogau. Cedwir 53% o'r 1.5 miliwn o bunnau a werir ar gyflogau yn lleol. Mae bron hanner y gwariant ar nwyddau a gwasanaethau yn lleol ac felly yn ailgylchu arian yn yr ardal.

Priodweddau sylfaenol Cwmni Bro Ffestiniog yw ymrwymiad a brwdfrydedd gwirfoddolwyr a gweithwyr cyflogedig sy'n aelodau creiddiol o'r gymuned, cyfathrebu gyda'r gymuned a chyfranogiad y gymuned ac ymateb i anghenion y gymuned (amlygwyd hyn fwyfwy yn ystod y pandemig).

Yn mis Awst 2018 cychwynwyd menter newydd, BROcast Ffestiniog, sef gwasanaeth darlledu cymunedol digidol, sy'n hyrwyddo cyfathrebu rhwng mentrau cymunedol yr ardal a'r gymuned ac oddi mewn i'r gymuned (gweler facebook.com/BROcastFfestiniog).

Lledaeniad y Model

Credir bod y model integredig a chyfannol o ddatblygu cymunedol y mae Cwmni Bro Ffestiniog yn ei arloesi yn cynnig patrwm y mae modd i gymunedau eraill ei efelychu. Bydd Cwmni Bro Ffestiniog yn ymateb yn gadarnhaol i wahoddiadau i ymweld ag ardaloedd eraill i esbonio'r hyn a gyflawnwyd ym Mro Ffestiniog ac i drafod potensial cyffredinol y model.

Mae Dolan yn rwydwaith sy'n hwyluso cydweithredu cynyddol rhwng Cwmni Bro Ffestiniog a mudiadau cymunedol yn nyffrynnoedd llechi Nantlle (Yr Orsaf) ac Ogwen (Partneriaeth Ogwen). Mae Cwmni Bro Ffestiniog a Dolan yn arloesi model o ddatblygu cymunedol sy'n cyd-weu agweddau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac addysgol wedi'u cyfuno gydag egwyddorion ac ymarfer yr economi sylfaenol a'r economi cylchol.

Nodweddion creiddiol y model yw gweledigaeth arloesol, mentergarwch, cyd-gynhyrchu, gweithredu fel catalydd i ddod a chyfranwyr ynghyd, rhwydweithio mentrau, rhannu adnoddau ymysg mentrau cymunedol gan arwain at enillion graddfa, annibyniaeth cyllidol ar sail perchnogi asedau, gweithredu ar sail ymchwil pwrpasol, datblygiad cymunedol o'r bôn i'r brig, trefniadaeth ddemocrataidd ac anhierarchaidd, ymateb hyblyg i anghenion y gymuned a hyrwyddo a hwyluso newid diwylliannol hunan gynhaliol.

Buasai addasu a mabwysiadu'r model hwn ar draws Cymru â'r potensial i drawsnewid ein cymunedau a'n heconomi. O ran lledaenu'r model mae'n amlwg o ystyried nodweddion y model a phrofiad Cwmni Bro a Dolan nad oes modd i gymunedau ddilyn rhyw fformiwla mecanyddol. Mae model Dolan yn integredig a chyfannol; mae ynglŷn a mabwysiadu persbectif diwylliannol crwn trawsnewidiol. Mae cynnig arweiniad i gymunedau eraill yn ei hanfod yn fater o addysgu a dysgu.

Mae'r model yn batrwm i'w efelychu gan gymunedau eraill. Cafwyd ymweliadau a cynigiwyd cyngor i fentrau cymunedol ym Môn a arweiniodd at sefydlu'r rhwydwaith Bro Môn. Sefydlwyd rhwydwaith tebyg ym Mhenfro dan arweiniad Planed. Cymerwyd camau diweddar i sefydlu Rhwydwaith Mentrau Cymunedol Gwynedd, sy'n dod a bron ddeugain o fentrau cymunedol at ei gilydd. Hyd yn hyn ymatebodd 17 o'r mentrau i holiadur ynglŷn a'u gweithgareddau, sy'n dangos bod cyfanswm eu trosiant yn £10,791,006, eu bod yn cyflogi 188 llawn amser, 152 rhan amser a bod ganddynt 443 o wirfoddolwyr. Yn ogystal a'u gwerth cymdeithasol mae gan yr 17 asedau gwerth £26,145,132.

Mae bwriad hefyd i sefydlu Rhwyd i ddod a mentrau cymunedol sy'n gweithredu yn y Gymraeg ar draws Cymru at ei gilydd i gydweithio. Yn ddiweddar, gyda chymorth Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau (Building Communities Trust), sefydlwyd Mudiad Cymunedol Cymru. Prif amcanion y rhwydwaith cenedlaethol hwn yw hwyluso cydweithredu uniongyrchol rhwng mudiadau cymunedol ar draws Cymru gan helpu i ledaenu'r model. Mae'r mudiad cenedlaethol hefyd yn llais ar y cyd i ddylanwadu ar, a gweithio gyda, llywodraeth yn lleol a chenedlaethol.

Mae mabwysiadu'r model yn fanteisiol i gymuned. Mae lledaeniad, addasiad a mabwysiadu'r model gan gymunedau eraill yn golygu creu cysylltiadau rhwng cymunedau sy'n arwain at fanteision ar y cyd, megis rhannu gwybodaeth ac adnoddau. Lledaener ymhellach i gymunedau ac fe gynyddir y manteision fwyfwy.

Buasai lledaeniad y model ar draws Cymru gyfan yn trawsnewid y wlad ac i hyn ddigwydd mae rôl Llywodraeth Cymru yn allweddol. Mae lledaenu'r model yn gosod sialens i lywodraeth yng Nghymru i ddatblygu polisiau a chefnogaeth priodol er mwyn hyrwyddo'r model hwn o ddatblygiad cymunedol yn ehangach ledled y wlad.

Fel y cam cyntaf awgrymir i Lywodraeth Cymru gydweithio gyda mudiadau cymunedol sydd â phrofiad o fabwysiadu'r model i ddyfeisio a chefnogi rhaglen i ledaenu'r model. I ddechrau buasai modd pilota hyn mewn nifer o gymunedau fel eu bod nhw wedyn yn dod yn esiamplau i gymunedau eraill ac

felly, gam wrth gam, buasai modd hyrwyddo rhaglen genedlaethol. Ar sail y profiad o'r rhaglen gallasai'r Llywodraeth a'r sector gymunedol gydweithio i gynhyrchu a gweithredu strategaeth genedlaethol ar gyfer datblygiad integredig ein cymunedau.

3. Datblygu cymunedol yn hyrwyddo'r chwyldro tymor hir

Mae dadansoddiad o incwm a gwariant mentrau cymunedol sy'n aelodau o Gwmni Bro Ffestiniog yn dangos bod canran uchel o'u hincwm yn aros yn y gymuned ar ffurf cyflogau a gwariant ar nwyddau a gwasanaethau lleol. Lluosogir yr incwm hwn ymhellach drwy i ganran uchel o'r cyflogau a gwariant a gedwir yn y gymuned gylchdroi'n lleol. Mewn geiriau eraill, mae cyfran uchel o'r incwm a gynhyrchir gan fentrau megis rhai yn y maes twristiaeth gymunedol yn aros yn y gymuned. Mae hyn yn groes i'r sefyllfa yn achos corfforaethau a chwmnïau mawr preifat. Yn eu hachos hwy llifo o'r gymuned a wnaiff yr incwm. Amcangyfrifir bod twristiaeth yn creu incwm o £17 miliwn o bunnau y dydd ar gyfartaledd yng Nghymru. Ar hyn o bryd cwmnïau mawrion allanol sy'n derbyn y rhan fwyaf o'r incwm ac mae arian yn llifo allan o'r cymunedau sy'n rhedeg y cyfleusterau ac adnoddau ar gyfer twristiaid. Hyn yn groes i achos mentrau twristiaeth cymunedol sy'n cadw a lluosogi'r incwm o dwristiaeth.

Mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru yn ffafrio'r cwmnïau mawrion sydd gan amlaf gyda'u pencadlysoedd wedi'u lleoli tu allan i Gymru. Un enghraifft yw Adventure Parc Snowdonia ar hen safle'r gwaith Alwminiwm yn Nolgarrog yn Nyffryn Conwy. Sefydlodd Adventure Parc Snowdonia, yn wreiddiol Surf Snowdonia, lagŵn reidio tonnau mewndirol cyntaf Prydain yn 2015. Yn ddiweddarach buddsoddwyd £16 miliwn ychwanegol i greu Adrenaline Indoors Facility a Hilton Garden Inn Hotel ar y safle. Derbyniodd y rhain grantiau hael gan Lywodraeth Cymru (amcangyfrifir mwy na 7.9 miliwn o bunnau). Llynedd gwnaethant £1.82 miliwn o golled ac fe fuont yn galw am help llywodraeth oherwydd 'unexpected costs'. Bellach mae Swyddfa Cartref y Llywodraeth yn Llundain wedi dod i'r adwy drwy anfon cannoedd o ffoaduriaid i aros yn yr Hilton yn Nolgarrog.

Mae'n amlwg bod cwestiynau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sylfaenol ynglŷn a'r holl fenter. Yn amgylcheddol yr holl ddefnydd o drydan i greu tonnau, y colledion ariannol, y modd y cafodd gweithwyr eu trin a chyndynrwydd y cwmni i ddefnyddio'r Gymraeg ar arwyddion. Mae hyn yn codi cwestiynau ynglŷn â pholisïau Llywodraeth Cymru o roddi cymhorthdal hael i gwmnïau preifat mawr ar draul cefnogi mentrau cymunedol, ac o ran hynny, mentrau preifat llai a chanolig.

Mae Raymond Williams yn cynnig fframwaith deallusol i edrych ar y berthynas hon rhwng cyfalaf, cymuned a llywodraeth. Mae cyfalaf cyllidol, a gysylltir gyda'r Ddinas yn Llundain, yr holl amser yn chwilio am gyfleon i fuddsoddi er mwyn creu enillion i gyfalaf. Cyfalaf preifat yn gaeth i dwf parhaol sy'n amgylcheddol anghynladwy. Er enghraifft, cyfalaf preifat sy'n gynyddol gyda'i grafangau ar y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus (NHS) gan bod preifateiddio'r gwasanaeth iechyd yn fodd hawdd i'r cyfoethog ymglyfoethogi ymhellach ond ar gost enfawr i ofal iechyd y mwyafrif. Mae corfforaethau twristiaeth preifat yn alldynnu gwarged, ar ffurf elw, o'u gweithgareddau ar draws y byd, gan gynnwys Cymru. Elw ar gefn llafur y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant twristiaeth. Mae'r hyn sy'n wir yn achos twristiaeth yn wir yn gyffredinol am ddiwydiannau eraill ar draws y byd. Dyma hanfod cyfalafiaeth imperialaidd heddiw. Hwyrach yr ymddengys bod cyn drefedigaethau yn hunan lywodraethol ond nid ydynt yn rhydd oherwydd tra arglwyddiaeth cyfalaf preifat traws-wladol.

Mae fframwaith deallusol Raymond Williams yn allweddol i ddadansoddi a deall ein hanes yng Nghymru. Llafuriodd y Cymry mewn diwydiannau megis glo, llechi, haearn, dur, amaeth ac ati gan gynhyrchu cyfoeth a echdynnwyd gan gyfalaf gan adael ein cymunedau ymysg y tlotaf yn Ewrop. Proses a hwyluswyd ac a hwylusir heddiw gan Lywodraeth gyfalafol yn Llundain sy'n bodoli'n bennaf i wasanaethu y Ddinas sydd, yn ei thro, yn noddi'r Blaid Doriaidd.

Mae persbectif Raymond Williams ar ddatblygu cymunedol yn cynnig ffordd ymlaen yng Nghymru. Mae Cwmni Bro Ffestiniog, yn ei ffordd fach ei hun, yn cynnig model integredig o ddatblygu cymunedol sy'n gweu trwy'i gilydd elfennau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ar gymuned ynghyd â mabwysiadu egwyddorion ac ymarfer yr economi sylfaenol a chylchol. Pe buasai'r model yn cael ei addasu a'i fabwysiadu gan gymunedau ar hyd a lled Cymru a phe buasai Llywodraeth ganol a lleol yng Nghymru yn blaenoriaethu cefnogaeth i gymunedau yn hytrach na chyfalaf corfforaethol buasai modd dechrau trawsnewid cymunedau ac economi ein gwlad.

Ystyrier bod pob ased a berchnogir gan y gymuned yn amddifadu cyfalaf cyllidol y Ddinas a sefydliadau cyfalaf cyllidol eraill rhag modd i gronni cyfalaf, hynny yw rhag ymelwa ac ychwanegu at gyfalaf cyllidol. Mae'r persbectif hwn yn gwyrddio'r ffordd geidwadol o weld y berthynas rhwng y Ddinas a Chymru; yn hytrach na gweld Cymru'n ddibynol ar Lundain y metropolis sy'n dibynnu ar Gymru fel un rhan o'r byd i'w ddefnyddio i gronni elw a chyfalaf preifat. Mae perchnogaeth cyhoeddus a chymunedol ar gyfalaf yn amddifadu'r Ddinas ddibynol yn Llundain. Mwy na hynny, mae perchnogaeth gymdeithasol a chymunedol ar yr economi a'n hadnoddau yn sail annibyniaeth a rhyddid go iawn i Gymru. Mae gan gymunedoli y potensial i gyfrannu, gam

wrth gam, i chwyldroi'r drefn o'r gwaelod i fyny, drwy gymdeithasoli elfennau sylweddol o'r economi dros amser.

Mae perchnogaeth gyhoeddus ar y cyfryngau cynhyrchu, ar gyfalaf, yn greiddiol i'r chwyldro yn y tymor hir. Mae'n sail sosialaeth. Derbynnir ei fod yn fwy synhwyrol perchnogi'n gyhoeddus rhai elfennau o'r economi ar lefel gwlad-eu gwladoli. Rhai elfennau o'r economi i'w perchnogi a'u rheoli yn gymdeithasol ar lefel rhyngwladol. Yn ddibynnol ar natur y gweithgaredd, gall cymunedoli fod y ffordd i gymdeithasoli elfennau eraill o'r economi ac y mae hyn yn gwarchod rhag gor-ganoli grym yn y wladwriaeth. Math yw hyn o sosialaeth ddatganoledig Gymreig ar linellau'r athroniaeth wleidyddol a ddatblygwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg dan yr enw 'cymdeithasiaeth'.

Mae'r persbectif cymunedol, sy'n seiliedig ar waith Raymond Williams, ac a amlinellir yn y papur hwn yn cyfuno dadansoddiad sosialaidd a phersbectif cenedlaethol. Daw a'r ddwy brif ffrwd wleidyddol yn hanes diweddar Cymru ynghyd; daw a'r traddodiadau sosialaidd a chenedlaethol at ei gilydd. Ffrydiau a gadwyd ar wahân, i raddau helaeth, cyhyd. Drwy asio'r mudiad cenedlaethol, a ddiffinnir yn nhermau cymuned o gymunedau, a sosialaeth gymunedol ddatganoledig bydd modd datblygu grym anorchfygol yng Nghymru. Asiad dosbarth a chenedl; pontio cenedl gorllewin a dwyrain, de a gogledd. Fel hyn, daw gobaith na fydd rhaid aros yn rhy hir cyn gweld gwireddu 'long revolution' Raymond Williams.

Papur gan Gwmni Bro Ffestiniog, Mawrth 2023. Croesawir sylwadau ar y papur hwn. Cysyllter â <sel.wiliam@outlook.com>